Ymddiriedaeth Caredigrwydd Gobaith

**"Gyda'n gilydd, byddwn yn rhoi diwedd ar dlodi"**

**GWEITHDREFN CLWYDALYN**

# Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban

**HR-P-37**
**Fersiwn 5**

**Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau gwahanol. I wneud cais am fformat gwahanol, cysylltwch â rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk**


ClwydAlyn

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JD

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17 0JD

ClwydAlyn

## Ynglŷn â ClwydAlyn
Ein cenhadaeth yw trechu tlodi, ac rydym yn ymdrechu i gefnogi ein preswylwyr i gael gwaith, hyfforddiant a gwirfoddoli.

## Sut rydym yn gweithredu
Trust Kindness Hope

## Cysylltu â ni

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cwsmeriaid | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 – 17:00 Rhadffôn o linell dir 0800 183 5757 neu 01745 536800 |
| Gwasanaeth trwsio argyfwng tu allan i oriau | 0300 1233091 neu neges destun 07786 202533 (cofiwch gynnwys eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn yn eich neges). |
| E-bost/ar-lein | help@clwydalyn.co.uk neu ar-lein @ https://www.myclwydalyn.co.uk/ |
| Cyfeiriad post | 72 Ffordd William Morgan<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych LL17 0JD |

## #DylanwadwchArnomNi
Hoffech chi gael cyfle i roi adborth am y pethau sy’n bwysig i chi fel preswyliwr ClwydAlyn? Awydd helpu i lywio a gwella’r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i chi? Oes gennych chi funud neu ddau neu ychydig oriau i’w neilltuo bob mis? Os mai’r ateb yw Ie, yna dyma eich cyfle i ddod yn Ddylanwadwr gyda ClwydAlyn, dilynwch y cyswllt **#influenceus form** neu e-bostiwch **influenceus@clwydalyn.co.uk**

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Rydym wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y ddogfen hon yn gynhwysol. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu os hoffech dderbyn y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

## Gwybodaeth am y Ddogfen /Rheoli Dogfennau
Cedwir y copi meistr gan y Rheolwr Dogfennau, cedwir y fersiwn PDF yn SharePoint ClwydAlyn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

## Rhif Cyhoeddi a Hanes Adolygu

| Rhif y Fersiwn | Manylion Adolygu /Rheswm dros newid | Awdur | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| V0 | Dogfen Wreiddiol | R. Williams | Ion 2020 |
| V1 | Mân newidiadau i’r manylion cyswllt | R. Williams | Mai 2023 |
| V2 | Mân newidiadau i’r manylion cyswllt | R. Williams | Hyd 2023 |
| V3 | Mân newidiadau i’r manylion cyswllt | A. Williams | Medi 2024 |
| V4 | Mân newidiadau i’r manylion cyswllt | A. Williams | Hyd 2024 |
| V5 | Mân newidiadau o ran geiriad a diweddaru’r manylion cyswllt | S. Williams | 19/01/2026 |
| | | | |

## Cynnwys


**1 Cyflwyniad ..... 3**

**2 Wrth bwy y dylech chi ddatgelu gwybodaeth? ..... 3**

**3 Ymchwiliad ..... 3**

**4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ..... 4**

**Atodiad A – Siart Llif yn crynhoi'r Weithdrefn ..... 5**

**Atodiad B – Tabl Manylion Cyswllt (yn Ionawr 2026) ..... 6**

## 1 Cyflwyniad

Dylid darllen y weithdrefn hon ar y cyd â'n Polisi Chwythu'r Chwiban sydd ar gael yma. Mae croeso i chi edrych ar y polisi i gael rhagor o wybodaeth am Chwythu'r Chwiban, i bwy mae'r polisi'n gymwys, a pha faterion mae'n ymdrin â nhw. Os ydych yn dymuno mynegi pryder o dan y Polisi Chwythu'r Chwiban, yna dylech ddilyn y weithdrefn hon.

## 2 Wrth bwy y dylech chi ddatgelu gwybodaeth?

Dylai unrhyw bryderon yr ymdrinnir â nhw o dan y Polisi Chwythu'r Chwiban gael eu codi gyda'r **Pennaeth Llywodraethu, Cyfreithiol a Risg** neu gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Diwylliant a Chyfathrebu, gellir gwneud hyn wyneb yn wyneb neu drwy fynegi eich pryderon yn ysgrifenedig a'u hanfon drwy e-bost at Ysgrifennydd y Cwmni <Company.Secretary@clwydalyn.co.uk>. Os nad yw hyn yn briodol, dylech chi fynegi eich pryderon wrth y Prif Weithredwr. Mae'r holl fanylion cyswllt wedi'u darparu yn Atodiad B.

Os ydych chi'n weithiwr cyflogedig gyda ClwydAlyn ac rydych chi'n poeni am godi eich pryderon yn uniongyrchol, gallech drafod eich pryderon gyda Chynrychiolydd y Fforwm Staff yn y lle cyntaf. Bydd yn gallu eich cefnogi drwy gydol y broses.

Dylai Aelodau'r Bwrdd gysylltu â'r Prif Weithredwr yn y lle cyntaf neu, os nad yw hyn yn briodol am unrhyw reswm, dylid cysylltu â Chadeirydd y Bwrdd, neu Gadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd. Mae manylion cyswllt wedi'u darparu yn Atodiad B.

## 3 Ymchwiliad

Os ydych yn dymuno reportio pryderon o dan y polisi hwn, mae'n bosibl y bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn penodi ymchwilydd a fydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn eich cyfarfod i gael rhagor o wybodaeth am eich pryderon. Os yw'n bosibl, cynhelir y cyfarfod hwn cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl i chi fynegi eich pryder. Gallwch ddewis cael eich cefnogi mewn unrhyw gyfarfodydd gan gydweithiwr, cynrychiolydd y fforwm staff neu gynrychiolydd undeb. Gall preswylwyr ofyn am gael preswyliwr arall yn bresennol. Rhaid i'r sawl sy'n dod gyda chi i'r cyfarfod barchu cyfrinachedd y datgeliad ac unrhyw ymchwiliad dilynol.

Yn gyntaf, bydd yr ymchwilydd yn penderfynu a yw'n briodol ymdrin â'r mater o dan y polisi hwn ac yna bydd yn cynnal unrhyw ymchwiliadau

angenrheidiol pellach. Bydd yn esbonio pa mor hir y bydd yr ymchwiliad yn debygol o'i gymryd gyda'r nod o ddod â'r ymchwiliad i ben cyn gynted â phosibl. I'r graddau bod hynny'n bosibl, byddwch yn cael gwybod canlyniad yr ymchwiliad, yn amodol ar hawliau unrhyw drydydd partïon y mae'n rhaid eu parchu. Os daw'n amlwg bod sail i'ch pryderon, byddwch yn cael gwybod pa gamau a gymerir i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Ar rai adegau, mae'n bosibl y bydd angen i ni roi gwybod i Reoleiddiwr allanol neu'r Heddlu am y pryderon sydd wedi'u codi. Bydd y sawl sy'n arwain yr ymchwiliad yn esbonio hyn i chi.

Rydym yn cydnabod nad yw bob amser yn bosibl ymdrin â rhai materion yn fewnol. Yn y sefyllfa hon, byddwn yn rhoi gwybod i'r awdurdod allanol perthnasol a gall ddod yn rhan o'r ymchwiliad ar unrhyw gam.

Byddwn yn gwneud ein gorau i roi gwybod i chi os byddwn ar fin/ wedi cyfeirio'r mater i awdurdod allanol, ond mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni wneud hyn heb yn wybod i chi neu heb eich cydsyniad os yw'n briodol.

Ein nod yw dod â phob ymchwiliad i ben o fewn cyfnod amser rhesymol.

Byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd ac yn rhoi gwybod i chi pan fydd yr ymchwiliad wedi dod i ben.

Yn unol â'n Gwerthoedd, hyderwn fod pryderon yn cael eu codi yn ddidwyll; fodd bynnag, os daw ymchwiliad i'r casgliad fod gwybodaeth wedi'i datgelu yn flinderus, yn faleisus neu er budd personol, efallai yr ymdrinnir â'r mater o dan y gweithdrefnau priodol.

Os ydych yn dal i deimlo'n anfodlon â'r ffordd yr ymdrinniwyd â'ch pryderon, ar ôl dilyn y gweithdrefnau mewnol a nodir uchod, gallwch ddewis codi'r mater gyda'r Prif Weithredwr neu gyda'r rheoleiddiwr priodol (Atodiad B).

## 4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau gwahanol. I wneud cais am fformat gwahanol, cysylltwch â rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

## Atodiad A – Siart Llif yn crynhoi'r Weithdrefn

**Cam 1**
**Mae gweithiwr cyflogedig, gweithiwr asiantaeth, contractwr, is-gontractwr, aelod o'r bwrdd, preswyliwr neu ymgeisydd swydd yn mynegi pryder o dan y Polisi Chwythu'r Chwiban**

↓

**Cam 2**
**Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn penodi ymchwilydd a fydd yn eich cyfarfod i drafod eich pryderon yn fwy manwl**

↓

**Cam 3**
**Bydd yr ymchwilydd yn ystyried a yw'n briodol ymdrin â'ch pryderon o dan y polisi Chwythu'r Chwiban**

↓

**Cam 4**
**Bydd yr ymchwilydd yn cynnal unrhyw ymchwiliadau angenrheidiol pellach**

↓

**Cam 5**
**Byddwch yn cael gwybod, i'r graddau bod hynny'n bosibl, beth yw canlyniad yr ymchwiliad**

↓

**Cam 6**
**Os oes sail i'ch pryderon, byddwch yn cael gwybod pa gamau fydd yn cael eu cymryd**

↓

**Cam 7**
**Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad, mae cyfle i chi drafod y mater gyda'r Prif Weithredwr**

↓

**Cam 8**
**Os ydych yn dal i fod yn anfodlon â'r canlyniad, gallwch godi'r mater gyda Chadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd neu'r Rheoleiddiwr priodol**

## Atodiad B – Tabl Manylion Cyswllt (yn Ionawr 2026)

| Swydd | Enw | Rhif Cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | Clare Budden | 07909 893520 | Clare.budden@clwydalyn.co.uk |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau | Sandy Murray | 07966 593062 | Sandy.Murray@clwydalyn.co.uk |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Tai | Suzanne Mazzone | 07825 927871 | Suzanne.mazzone@clwydalyn.co.uk |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chymorth | Ed Hughes | 07585 992800 | Edward.hughes@clwydalyn.co.uk |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Diwylliant a Chyfathrebu | Sian Williams | 07977 795209 | Sian.Williams@clwydalyn.co.uk |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu a Rheoli Asedau | Craig Sparrow | 07824 864848 | Craig.sparrow@clwydalyn.co.uk |
| **Pennaeth Llywodraethu, Cyfreithiol a Risg** | Rachel Storr Barber | 01745 536812 | rachel.storr-barber@clwydalyn.co.uk |
| Cadeirydd y Bwrdd | Cris McGuinness | * | cris.mcguinness@clwydalyn.co.uk |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd | Rob Morton | * | rob.morton@clwydalyn.co.uk |
| Public Concern at Work (PCAW) | | 02031 172520 | www.protect-advice.org.uk |
| Rheoleiddiwr Llywodraeth Cymru | | 03000 251378 | |
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) | | 03007 900126 | CIW@gov.wales |